

Cerflun Porth y Fyndfa wrth Iard y Stesion gan Nigel Talbot

Mae Nigel wedi creu mynedfa i Nant y Pandy sy'n rhoi ymdeimlad o gyrraedd. Mae trac coed yn rhedeg ar hyd seidins yr hen reilffordd ac mae yno 25 o foncyffion coed derw wedi eu hollti ar eu hyd i dangos agweddau ar hanes diwylliannol a diwydiannol Ynys Môn.



Station Gateway Sculpture created by Nigel Talbot

Nigel has produced an entrance to the Dingle that creates a sense of arrival. The wooden track lies upon the former railway sidings and is lined by 25 oak trunks that are each sliced lengthways revealing elements of Anglesey's industrial and cultural history.

Cerflun Porth yr Eglwys gan Reece Ingram

Mae cerflun Reece yn seiliedig ar y gwas y neidr y gellir ei weld ym mhob man yn Nant y Pandy. Mae myrdd o'r pryd hyn fel ysbyrdion yn arbennig felly pan fo'u hadnedydd tryloyw yn dal yr haul.



Church Gateway Sculpture created by Reece Ingram

Reece's sculpture is based on the dragonfly which can be found throughout the Dingle. The myriads of these flying insects are like hosts of human spirits, especially when their translucent wings are caught in the sunlight.

Cerflun wrth Borth Coed Plas gan Dominic Clare

Mae Dominic wedi dewis natur yr ardal fel thema. Mae ei gerflun yn seiliedig ar ddeilen castanwydden sy'n tyfu yn Nant y Pandy ac mae wedi pwysleisio pryderfwrch y planhigyn trwy ei chwyddo i faint anferthol.

Coed Plas Entrance Sculpture created by Dominic Clare

Dominic has chosen the flora of the area as a theme. One of his sculptures is based on the sweet chestnut leaf found in the Dingle, he has emphasised the beauty of the plant forms by enlarging them to a gigantic size.



Dyffryn coedig 16 hectar (40 acer) ac ynddo gyfoeth o fywyd gwylt a hanes ydy Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy. Ychwanegwyd at y cynllun drwy ymgysylltiad cymunedol, gweithio mewn partneriaeth a chymorth grant, yn fwyaf diweddar gyda phrosiect Ymweld â Môn, ac fe'i rheolir gan Wasanaeth Cefn Gwlad ac AHNE Ynys Môn.

Mae'r gwaith gwella yn cynnwys llwybr bordiau pren sy'n ymdroelli ar hyd Afon Cefni, tair pont droed o goed derw, cerfluniau, meinciau wedi eu cerflunio a byrddau picnic. Mae'r cerfluniau yn cynnwys, ymysg pethau eraill, gwas y neidr enfawr, hadau planhigion anferthol a choed derw wedi eu hollti i ddatgelu'r gerdd 'Nant y Pandy' gan y bardd lleol, Rolant o Fôn. Mae'r llwybr bordiau pren yn caniatáu i bawb fynd i sawl rhan o'r warchodfa. Rheolir Nant y Pandy gan Wasanaeth Cefn Gwlad ac AHNE Cyngor Sir Ynys Môn.



The Dingle/Nant y Pandy Local Nature Reserve is a 16 hectare (40 acre) wooded valley rich in wildlife and history.

It has been enhanced through community involvement, working in partnership and grant aid, most recently with the Ymweld a Môn project, and is managed by the Isle of Anglesey County Council's Countryside and AONB Service.

These enhancements include a wooden boardwalk that winds its way along the Cefni, three bridges, sculptures, sculpted benches and picnic tables.

The sculptures include a huge dragonfly, giant seed pods and split oak timbers revealing the poem Nant y Pandy by local poet Rolant o Fôn.

The boardwalk allows access for all to many parts of the reserve. The Dingle is managed by the Isle of Anglesey County Council's Countryside and AONB Service.



Am ychwaneg o fanylion, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cefn Gwlad ar - (01248) 752428

www.crossomson.com - www.ymysmon.gov.uk

For more information contact the Countryside Services on - (01248) 752428

www.visitanglesey.com - www.anglesey.gov.uk

Healthcare y Gornel, Caebar yr Idd Bawdd, Cyngr Sir Ynys Môn Rhod 2000, 2003

Creed copyright. All rights reserved. Isle of Anglesey County Council, Ynys Môn, Rhod 2000, 2003

Call this a map OS grid code is given on a 100m scale at 100m intervals. 1:100,000 scale map. Llangefni Local Nature Reserve.

The OS map data included in this leaflet is so provide directions to the Dingle/Nant y Pandy Local Nature Reserve.

GWARCHODFA NATUR LEOL
NANT Y PANDY



THE DINGLE
LOCAL NATURE RESERVE



welcome to anglesey

LLANGEFNI



Hyd at adeg adeiladu cob Malltraeth, roedd modd cael at Llangefni o'r môr ac roedd gan y dref ei swyddfa dollau ei hun.

Cafodd Llyn Bach (gweler y map) ei greu er mwyn sianelu dŵr i felin ddŵr Llangefni. Fe'i defnyddiwyd hefyd i gynhyrchu trydan ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Cafodd Llyn Pwmp (gweler y map) ei gloddio yn 1876 er mwyn cyflenwi dŵr i Reilffordd Ganol Ynys Môn. Adeiladwyd ystol i bysgod ar yr un pryd.

Adeiladwyd Eglwys Cyngar Sant yn 1821 ar safle hen eglwys Geltaidd ac fe'i henwir ar ôl gŵr o Gernywg o'r enw Cyngar a sefydlodd gymuned grefyddol yn Llangefni.

Enw arall ar Ffynnon Cyngar, un o'r cyflenwadau dŵr i dref Llangefni, oedd Ffynnon Plas ar ôl y plasty canoloesol a gafodd ei dymchwel yn 1949.



The town of Llangefni was, until the construction of the cob at Malltraeth, accessible to the sea and had it's own customs office.

Llyn Bach (see map) was created in order to channel water to the Llangefni water mill. It was also used to generate electricity in the early part of the 20th century.

Llyn Pwmp (see map) was excavated in 1876 to provide water for the Anglesey Central Railway. A fish ladder was also constructed at the same time.

The present St Cyngars Church was built in 1821 on the site of an existing Celtic church and is named after a Cornishman, Cyngar, who formed a religious community in Llangefni.

St Cyngars Well, once one of the water supplies for the town of Llangefni, was also known as Ffynnon Plas - The Mansions' Well after the nearby mediaeval mansion was demolished in 1949.

Mae yna gyfoeth o fywyd gwyllt yn Nant y Pandy

Coed derw digoes, ynn a cheirios gwyllt sydd i'w gweld yn bennaf mewn rhannau o'r coetir gyda sioe ysbennydd o glychau'r gog yn y gwanwyn. Mewn rhannau eraill, coed sycamorwydden ac ambell i onnen sydd i'w gweld gyda phentwr o redyn a mwsog a blodau'r goedwig megis blodau'r gwynt. Plannwyd castanwydd, ffawdd a phinwydd gwyllt yng Nghoed Plas a gwelir yno garped o gennin Pedr yn y gwanwyn.

Mae llyfantod a madfallod yn byw yn y manau gwlyb ac mae gwiberod a genau-goegaidd yn byw yn y coetir sychach. Ceir yma sawl math o löyn yw megis llwyd bach y ddol a brith y coed a gwyfynod hefyd. Yn ogystal, gwelir gwëision y neidr a mursennod, pryfed hofran, gwenyn a gwenyn meirch, chwilod, gwllithod a malwod, pryfed cop, pryfed lludw a nifer o greaduriaid bychain eraill.



Mae adar i'w gweld yma drwy'r flwyddyn: mae'r titw tomos las a'r titw mawr yn nythu yn y coed a'r iâr ddŵr hithau yn nythu wrth y dŵr; mae'r dryw a'r siglen lwyd yn enghreifftiau o'r adar bach sydd i'w gweld yn aml o'r llwybr bordiau pren a gwelir adar mwy megis y gigfran, y boncath a'r creÿr yn hedfan uwchben. Mae modd gweld glas y dorlan hefyd yn fflach o las trydanol neu drochwr yn siglo i fyny ac i lawr ar hyd yr afon. Gellir clywed y dylluan frech a'i gweld yn aml hefyd yn y coetir yn y nos.

Gellir gweld pysgod megis y brithyll, y cochiad a'r pysgodyn garw yn Llyn Pwmp ac o bryd i'w gilydd daw siwin a'r 'slywen i ymweld.

Mae mamaliaid yn fwy anodd o lawer i'w gweld. Efallai na fydd modd gweld y llwynog, dim ond clywed ei arogl ar draws llwybr. Gellir gweld olion y llygoden goch a llygoden y maes yn y darnau o gnau cyll sy'n cael eu gadael ganddynt. Wrth iddi dywyllu, mae modd gweld 8 allan o'r 16 math o ystum sydd yn Mhrydain.

Mae wiberod coch wedi cael eu hailgyflwyno'n ddiweddar ac maent yn ffynnu.

The Dingle has abundant wildlife

Parts of the woodland are dominated by sessile oak, ash and wild cherry with a spectacular show of bluebells in spring. Other parts are mostly sycamore and the occasional ash tree with an abundance of ferns and mosses and woodland flowers such as wood anemones. Coed Plas was planted with sweet chestnut, beech and Scots pine and has a carpet of wild daffodils in spring.

Frogs and newts live in the wetter areas and adders and lizards in the drier woodland. There are many butterfly species such as gatekeeper and the speckled wood as well as moths. There are also dragonflies and damselflies, hoverflies, bees and wasps, beetles, slugs and snails, spiders, woodlice and many other small creatures.

Birds are easy to see throughout the year: blue tits and great tits nest in the woods and moorhen by the water; wrens and grey wagtails are common small birds seen along the boardwalk; and larger birds, ravens, buzzards and herons fly overhead. A glimpse of the kingfisher may be seen as a flash of electric blue or a dipper may be bobbing along the river. The tawny owl can be heard and often seen in the woodland at night.

Fish like the trout, roach and perch may be seen in Llyn Pwmp, sea trout are occasional visitors as are eels.

Mammals are much more elusive. The only sign of the fox may be the drift of its scent across a path. Bank vole and wood mice leave nibbled hazel nuts to show their presence. 8 of the 16 species of bat found in Britain can be seen here at dusk.

Red squirrels have recently been reintroduced and are flourishing.



Mae Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy yn ddyffryn coedlog 16 hectar (40 acer) gyda'r afon Cefni yn rhedeg drwyddo. Daw'r gair Cefni o'r gair Cymraeg "cafn".

Mae Nant y Pandy yn ddyffryn gydag ochrau serth ac fe gafodd ei ffurfio yn ystod yr oes iâ ddiwethaf o ddŵr rhewlifol a oedd wedi dadmer - hwn yw'r rheswm am un o'i enwau yn yr iaith Gymraeg sef Nant y Dilyw.

Mae'r enw Nant y Pandy yn cyfeirio at hen waith prosesu gwllân a oedd yn arfer â'r bod i fyny'r afon (gweler y map).

Mae llawer o'r warchodfa yn goetir hynafol a dyna'r rheswm iddo gael yr enw "Y Dingle" mor bell yn ôl â'r 1830au. Yn llythrennol mae'r gair Dingle yn golygu dyffryn coedlog serth.



The Dingle Local Nature Reserve is a 16 hectare (40 acre) wooded valley and is bisected by the river Cefni, which comes from the Welsh word "cafn" meaning trough or hollow.

The Dingle is a steep sided gorge formed by glacial meltwater during the last ice age hence one of its Welsh names Nant y Dilyw - Valley of the Deluge.

Another name for the Dingle is Nant y Pandy - Brook of the Fulling Mill. This refers to the old wool processing plant situated upstream (see map).

Much of the reserve is ancient woodland which led to it being known as the Dingle as early as the 1830's. Dingle literally means steep wooded valley.



Mae taith sain ar gael i'w lawriwytho (gweler cefn y daflen)

A new audio trail for the reserve is available to download (see back of leaflet)

